YSGOL GYFUN GYMRAEG
GLANTAF
CORON GWLAD EI MAMIAITH

**Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf**
Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL
**Pennaeth/Head:**
Mr Matthew H T Evans

029 2033 3090
ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk
www.glantaf.cymru

Gorffennaf 12, 2024

Annwyl Rhiant / Warcheidwad,



*Myfyrwyr y Fagloriaeth, Bl10 yn holi'r Prif Weinidog*

Wrth i ni nesáu at ddiwedd y tymor, hoffwn ddiolch yn ddiffuant am waith rhagorol disgyblion a staff yma yng Nglantaf drwy gydol y flwyddyn. Yn gywir iawn, hoffwn ddymuno gwyliau haf ymlaciol, hwyliog a haeddiannol iawn i'n holl deuluoedd! Mae ein **adroddiad blynyddol** bellach ar gael ar wefan ein hysgol https://www.glantaf.cymru/cyfathrebu/adroddiadau-blynyddol sydd hefyd yn cynnwys dyddiadau tymor a HMS ar gyfer 2024-25.

**Ffarwelio:** Hoffem hefyd ddiolch ac anfon ein dymuniadau gorau i'r aelodau staff hynny sy'n ein gadael ar ddiwedd tymor. Hoffem ddiolch a dymuno'n dda i'n staff cymorth: Ms Courtney Rees, Mr Nathan Mathias, Mr Sam Powell, Mr Steffan Amos, Mr Macsen Gravelle, Mx Tom Price, Mr Louis Erskine, Mrs Angharad Llwyd a Ms Lois Pittick. Rydym hefyd yn ffarwelio â nifer o staff addysgu: Ms Meleri Wyn Jones (Pennaeth Cynorthwyol); Mr Ian Roberts (Pennaeth Addysg Grefyddol); Mrs Nia Evans (D&T Arlwyo); Ms Gwenno Evans (Saesneg); Mr Jake Bean (Bioleg); Ms Gwenno Davies (Add Gorff); Ms Rachel Phelps (Drama); Ms Abigail Frazer (D&T) a Mrs Nia Richardson (TGCh). Rydym hefyd yn diolch ac yn dymuno'n dda i ddau bennaeth cynradd y clwstwr, sy'n ymddeol ar ddiwedd tymor. Mae Mrs Moira Kellaway, Pennaeth y Wern a Mrs Sian Evans, Pennaeth Ysgol Mynydd Bychan wedi bod yn arweinwyr rhagorol yng nghymunedau eu hysgolion ac yn bartneriaid gwych i bob un ohonom yng Nglantaf. *Diolch a phob dymuniad da i'r dyfodol!*

**Arddangosfa Celf Gwaith TGAU a Safon Uwch:** Mae wedi bod yn braf arddangos gwaith ardderchog o bortffolios TGAU a Safon Uwch Celf dros yr wythnosau diwethaf. Braint oedd cael mwynhau a gwerthfawrogi'r talent sy'n cael ei arddangos a'n diolch i'r adran am eu hysbrydoliaeth

**Proms, Gŵyl Glantaf a llawer mwy...** Fe wnaethon ni fwynhau talentau cerddorol ein myfyrwyr yn ein Cyngerdd Proms haf cyntaf erioed, gan wrando gwaith y gerddorfa, grwp jazz ac offerynwyr unigol. Diolch yn ddiffuant i bawb a gefnogodd ein *Gŵyl Glantaf* er budd Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf. Roedd yn llwyddiant ysgubol gyda phob dosbarth yn cydweithio'n dda i sicrhau digwyddiad gwych. Rydym yn falch ein bod wedi llwyddo i godi dros £3,000 ar gyfer yr Eisteddfod! Gan fod yr Eisteddfod Genedlaethol yn cael ei chynnal eleni ym Mhontypridd, rydym yn gobeithio y bydd ein myfyrwyr a'n teuluoedd yn gallu ymweld a mwynhau'r holl weithgareddau amrywiol yn ystod yr wythnos 3-10 Awst. Amserlen digwyddiadau: https://eisteddfod.cymru/yrwyl/2024
Unwaith eto, mae diwedd tymor wedi bod yn fwrlwm o weithgareddau i fyfyrwyr: taith Drayton Manor; Teithiau Dug Caeredin; Her Gwyddorau Naturiol; Senedd Ieuenctid Ewrop yn rowndiau terfynol cenedlaethol; Nosweithiau Agored Bl6; Gweithdai lles Brook, sgyrsiau cyflogwyr Gyrfa Cymru, ymweliad Blwyddyn 7 â Bae Caerdydd a'r Senedd a chwrs preswyl Bl12 i Brifysgol Aberystwyth.

**Teithiau De Affrica ac ymweliadau preswyl** – Rydym yn dymuno'n dda i'n myfyrwyr hŷn ar eu Teithiau i Dde Affrica dros yr wythnosau nesaf. Diolchwn hefyd i'r Adran Hanes am y profiadau cyfoethog i Bl9 ar eu hymweliad diweddar â Gwlad Belg a Ffrainc. Fe wnaethom hefyd groesawu'r disgyblion o'r Ganolfan yn ôl o'u taith preswyl i Liddington yr wythnos hon.


*Arddangosfa Gelf 2024*

**Canlyniadau Profion Cenedlaethol**: Gallwch weld canlyniadau Asesiadau Darllen (Cymraeg a Saesneg) a Rhifedd (Gweithdrefnol a Rhesymu) 2024 sydd wedi'u lanlwytho i gyfrif HWB eich plentyn trwy ddewis "Asesiadau Personol" a dewis Adborth Dysgwyr neu Cynnydd Dysgwyr. Os oedd eich plentyn yn absennol o'r asesiadau ym mis Mehefin, yna ni fydd adroddiad ar HWB. Am fwy o fanylion: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/asesiadau-darllen-a-rhifedd/asesiadau-personol-gwybodaeth-i-rieni-a-gofalwyr

**Bydd Adroddiadau Interim (Bl7-10) ac Adroddiadau Llawn (Bl7, 8 a 10) yn cael eu dosbarthu yn ystod yr wythnos nesaf.**

**Canlyniadau TGAU a Safon Uwch**

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Iau 15 Awst: | 8am: Bl 13 yn unig | 9am: Bl 12 yn unig |
| Dydd Iau 22 Awst: | 8am: Bl 11 yn unig | 9am: Bl 10 yn unig |

Os na all eich plentyn gasglu'r rhain o'r ysgol, byddwn yn rhannu'r canlyniadau gyda rhieni gyda chadarnhad ysgrifenedig gan y myfyriwr. Bydd canlyniadau unigol yn cael eu hanfon i gyfeiriad e-bost hwb pob disgybl erbyn 10am ar y diwrnod



*Steffan Raynor Owen Bl 9 - Medal Aur ym Mhencampwriaeth Saethyddiaeth Iau dan 15 y DU*

**Gwisg ysgol Blwyddyn Newydd 2024-25:** Ym mis Medi byddwn yn dychwelyd i ddisgwyliadau uwch ynghylch gwisg ysgol a phrydlondeb i'r ysgol. Hoffwn eich atgoffa'n garedig i brynu'r eitemau hynny a ganiateir yn ein cod gwisg ysgol ar gyfer mis Medi, rhestrir yr eitemau cywir yn glir ar ein gwefan yma: https://www.glantaf.cymru/croeso/gwisg-ysgol Byddem yn croesawu eitemau gwisg ysgol mewn cyflwr da (*wedi'u golchi a dileu'r enw*). Cofiwch hefyd ein tudalen Facebook https://www.facebook.com/p/Gwisg-Ysgol-Glantaf-School-Uniform-recycling-100061038047454/ lle gellir rhoi a derbyn gwisg am ddim. Mae cymorth ariannol i deuluoedd hefyd ar gael drwy https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Schools-and-learning/Financial-support/School-Essentials-Grant/Pages/default.aspx . Dilynwch y ddolen hon ar gyfer cymorth lles i bobl ifanc: https://hwbwave15-my.sharepoint.com/:w:/g/personal/newisr_hwbcymru_net/EZ-J1WFg30BMmWyfp_rcqI4BB6a7QbyX99LbvXOo2gGw3Q?rtime=HhtygD-i3Eg yn ogystal â chefnogaeth yr haf ar gyfer adnoddau, gweithgareddau am ddim, prydau bwyd a chymorth arall:




**Dyddiadau Tymor Pwysig**:

| | |
|---|---|
| Gorff 14 | Glantaf yn Tafwyl, Parc Bute am 5pm |
| Gorff 15- 19 | Wythnos Profiad Gwaith Blwyddyn 12 |
| Gorff 17 | Prynhawn gwobrwyo Y Ganolfan am 1pm |
| Gorff 18 | Ffair Wyddoniaeth Bl8 |
| | Adr diwedd tymor (gweler uchod) |
| **Gorff 19** | **Diwedd Tymor yr Haf (cau am 1.30pm)** |
| 2 Medi: | HMS ysgol (ysgol ar gau i ddisgyblion) |
| **3 Medi:** | **Dechrau tymor Bl 7 a 12 yn unig** |
| **Medi 4:** | **Dechrau'r tymor i bob disgybl** |
| 12 Medi: | Noson Gwobrwyo Chwaraeon @ 7pm |

Dros yr haf byddwn yn gwella ein tai bach, ac ehangu adnoddau chwarae iard a hoffem gyflwyno piano i'w chwarae o amgylch y campws – os hoffech gyfrannu hen biano – cysylltwch â ni! Dymunwn wyliau haf hamddenol a gwych i chi a diolch eto am eich cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn,

Yn ddidwyll,

Matthew H T Evans
Pennaeth
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf



*Pencampwyr Cwpan Athletau Cymru dan 14 a dan 16*



*Gwyl Glantaf 2024*